EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION UNFED CYFARFOD AR BYMTHEG
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 12 Gorffennaf 2019

LLEOLIAD: Ystafelloedd cyfarfod CGA, 10fed Llawr, Eastgate House, Heol Casnewydd, Caerdydd

Yn Bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Ian Roberts
Kelly Edwards	Eithne Hughes
David Williams	Clare Jones
Steve Drowley	Jane Setchfield
Paul Croke	Gwawr Taylor
Kevin Pascoe	Rosemary Lait
Anne Pitman	

Ymddiheuriadau:

Berni Tyler	
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Ysgrifennydd y Cyngor (cofnodion)

Sylwedyddion:

Maria Fitzgerald	Pennaeth Cofrestru, Cyngor Addysgu Iwerddon
Rachel Price	Swyddog Gweithredol Uwch Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon

Cyn cyfarfod y Cyngor, cynhaliodd y Gweinidog Addysg sesiwn holi ac ateb gydag aelodau. Nododd aelodau fod y sesiwn wedi bod yn addysgiadol ac yn fuddiol iddynt o ran eu rolau fel aelodau'r Cyngor.

1. Croeso ac eitemau rhagarweiniol

1.1 Croesawyd aelodau i unfed cyfarfod ar bymtheg Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gan Angela Jardine, (*Cadeirydd*). Croesawodd y sylwedyddion Maria Fitzgerald (*TCI*) a Rachel Price (*CGA*) hefyd, a oedd yn yr oriel gyhoeddus.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi cael eu derbyn gan Elizabeth Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer)* a oedd yn gwella ar ôl llawdriniaeth, Berni Tyler a chydweithwyr yn GTCNI a GTCS.

1.3 Gwahoddodd y Prif Weithredwr i adrodd yn ffurfiol ar ganlyniad etholiad Cadeirydd y Cyngor, fel y cafodd hyn ei gyfleu i aelodau ar 14 Mai. Dywedodd, yn dilyn proses ethol lawn, fod Angela Jardine wedi cael ei phenodi i wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor am dymor arall, tan 31 Mawrth 2023.

1.4 Yn unol ag amserlen hyfforddi 12 mis CGA, atgoffwyd aelodau y byddai sesiwn ar Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb gan Diverse Cymru yn dilyn y cyfarfod.

1.5 Atgoffwyd aelodau y byddai digwyddiad nesaf CGA, sef 'O Siarad yn Broffesiynol' ('Professionally Speaking'), yn cael ei gynnal ar 16 Medi 2019 yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gan fod y prif siaradwr, sef Andy Hargreaves, yn siaradwr blaenllaw a phoblogaidd, mae'r tocynnau a neilltuwyd i gyd wedi cael eu cadw. Nododd y Cadeirydd fod llawer o aelodau eisoes wedi archebu eu tocynnau, ond anogodd y rheiny nad oeddent wedi archebu tocynnau i siarad ag Ysgrifennydd y Cyngor cyn gynted ag y bo modd.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Nododd y Cadeirydd y gall rhai aelodau fod yn dymuno datgan buddiant yn eitem agenda 33/19 yn sgil eu rhan yn cyflwyno tystiolaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) fel ymgynghoreion. Dywedodd dau aelod y bu ganddynt ran yn y broses hon. Esboniodd y Prif Weithredwr fod papur 33/19 CGA yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith yr Ysgrifenyddiaeth yn unig, ac nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol ynglŷn â thrafodaethau Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Nododd y ddau aelod y byddent yn gadael y cyfarfod pe baent yn teimlo bod trafodaethau yn ystod yr adroddiad cynnydd yn ysgogi unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau.

2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau.

3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd

3.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau ei bod wedi mynychu gweithdy ar 12 Mehefin 2019 o ran y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a oedd yn cael ei gynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. O gofio am y gorgyffwrdd o ran grwpiau unigolion cofrestredig y Cyngor ei hun, ystyriwyd ei bod yn hanfodol i CGA gymryd rhan yn y gwaith hwn. Byddai'n parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau wrth i waith yn y maes hwn ddatblygu.

3.2 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd.

4. I gael hysbysiad am unrhyw faterion y mae aelodau'n dymuno eu codi ynglŷn â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda (19-23)

4.1 Ni nodwyd unrhyw faterion pellach.

5. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 12 Ebrill 2019

5.1 Aeth y Cadeirydd â'r Cyngor trwy gofnodion drafft 12 Ebrill 2019 fesul tudalen. Gofynnodd i aelodau gadarnhau bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Cyngor.

Materion yn Codi

5.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 17 Mai 2019

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn. Dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi y dylid tynnu sylw aelodau atynt nad oeddent yn cael eu cwmpasu yn ddiweddarach ar yr agenda.

6.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan aelodau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 17 Mai 2019

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Dywedodd nad oedd unrhyw faterion pellach yn codi y dylid tynnu sylw aelodau atynt nad oeddent yn cael eu cwmpasu yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau eraill gan aelodau.

8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 25/19

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ystod o faterion nad ymdrinnir â nhw mewn mannau eraill ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau gan aelodau. Tynnodd sylw aelodau at rai pwyntiau penodol yn yr adroddiad.

8.2 Gan gyfeirio at baragraff tri, gofynnodd i'r aelodau nodi'n ffurfiol fod y Cyngor wedi derbyn Llythyr Cynnig Grant Llywodraeth Cymru ar 14 Mai 2019. Roedd y ffaith ei fod wedi derbyn y llythyr ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol yn golygu bod gwaith eisoes wedi dechrau yn y meysydd hyn. Roedd swyddogion wedi codi'r pryder hwn gyda Llywodraeth Cymru yn y gorffennol, a byddai'n parhau i wneud hynny pe bai Llythyrau Cynnig Grant yn y dyfodol yn cael eu derbyn ar ôl 1 Ebrill.

8.3 Fel y nodwyd ym mharagraff 10, dywedodd fod y Cyngor wedi derbyn cais ffurfiol gan Gadeirydd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnig ei safbwyntiau ar ddeiseb i'r Cynulliad o'r enw 'Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi'. Gwahoddodd aelodau i gysylltu ag Ysgrifennydd y Cyngor pe baent yn dymuno cael copi o'r ymateb a gyflwynwyd.

8.4 Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael ei wahodd i fynychu sesiwn banel ar 9 Gorffennaf 2019 gyda nifer o sefydliadau haen ganol eraill, a fyddai'n cael ei gadaeirio gan yr Athro Mick Waters mewn perthynas ag 'ailddelweddu ysgolion'. Fel y nodwyd ym mharagraff 12, roedd hyn yn dilyn adroddiad gan yr Athro Waters a gyhoeddwyd yn 2018 ar gyflog ac amodau ar gyfer athrawon ysgol.

8.5 Cyfeiriodd aelodau at baragraff 22 a oedd yn rhestru digwyddiadau a chydweithrediadau allweddol CGA. Parthed y wybodaeth a ddarperir yn y papur, nododd fod 15 Hydref 2019 bellach wedi'i sicrhau ar gyfer y digwyddiad addysg gychwynnol i athrawon gyda'r Dr Nicole Mockler a'r Athro John Furlong yng Ngogledd Cymru.

8.6 Nododd hefyd y byddai CGA, mewn partneriaeth â'r Academi Genedlaethol er Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) a Phrifysgol Abertawe, yn cynnal dosbarth meistr addysgol wedi'i gyflwyno gan Pak Tee Ng, sef addysgwr o Singapôr, ar 27 Medi 2019.

8.7 Yn unol â rhan CGA yn cynnal digwyddiadau, ac yn cydweithio ynddynt, gwahoddodd y Prif Weithredwr unrhyw awgrymiadau gan aelodau ynglŷn â phrif siaradwyr yn y dyfodol. Anogodd aelodau i gysylltu ag Ysgrifennydd y Cyngor hefyd i gofrestru ar gyfer digwyddiadau sydd ar fin cael eu cynnal.

8.8 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weithredwr.

9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft CGA 26/19

9.1 Cyflwynodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Esboniodd fod y drafft wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Mai, a bod manylion y Cyfrifon Blynyddol wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2019. Cyflwynwyd yr adroddiadau cyflawn i'r Cyngor eu hadolygu a'u cymeradwyo.

9.2 Esboniodd, ar ôl cymeradwyaeth y Cyngor, y byddai'r Prif Weithredwr yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru, a fyddai'n eu hardystio ar 18 Gorffennaf 2019.

9.3 Gan gyfeirio at dudalen 19 yr Adroddiad Blynyddol, amlygodd fod y Cyngor wedi adrodd am warged o £544,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2019. Roedd aelodau yn ymwybodol bod hwn yn warged is na'r hyn a adroddwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017-18, o ganlyniad i'r gwariant cynlluniedig a oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol.

9.4 Nododd fod diwygiadau wedi cael eu gwneud i falansau wrth gefn y Cyngor trwy gydol y flwyddyn, yn arbennig gyda chynnydd i weddillion wrth gefn y gronfa ddata a lleihau'r gronfa wrth gefn ar gyfer adeiladau trwy ei wariant cynlluniedig. Amlygodd fod y balans sy'n weddill yn y gronfa wrth gefn ar gyfer adeiladau wedi'i glustnodi ar gyfer lleihau'r asedau a brynwyd ar gyfer adnewyddu'r 9fed a'r 10fed llawr, dros gyfnodau eu hoes ddefnyddiol.

9.5 Gan gyfeirio at yr adroddiadau Archwilio, amlygodd aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yr adborth cadarnhaol a gafodd y Cyngor gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn ei gyfarfod diweddar ar 1 Gorffennaf 2019. Nododd aelodau'r Pwyllgor eu diolch am y sesiwn hyfforddi a roddwyd gan archwilwyr mewnol y Cyngor, sef Deloitte, a sicrhaodd eu bod yn craffu ar y cyfrifon yn hyderus i argymell er mwyn i'r Cyngor eu cymeradwyo.

9.6 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr y byddai swyddogion yn croesawu mewnbwn ac awgrymiadau aelodau ynglŷn â llunio'r adroddiad blynyddol a chyfrifon nesaf, ac awgrymodd y dylai aelodau drafod hyn ymhellach yn y sesiwn gynllunio sydd wedi'i threfnu yn dilyn cyfarfod nesaf y Cyngor ar 15 Tachwedd 2019.

9.7 Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a diolch i swyddogion am gyflwyno dadansoddiad mor drylwyr.

10. Adolygu'r Gofrestr Risg **CGA 27/19**

10.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn, ac atgoffa aelodau bod y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan yr Uwch Dîm Rheoli bob chwarter. Parhaodd yr adolygiad diwethaf gan yr Uwch Dîm Rheoli, a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2019, i ddiffinio'r holl risgiau yn rhai "agored". Wedyn, trafodwyd y Gofrestr yn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 1 Gorffennaf 2019 ac roedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor bob blwyddyn i'w gymeradwyo.

10.2 Nododd fod proffil risg cyffredinol y Cyngor wedi aros yn gymharol sefydlog, gyda saith risg wedi'u nodi'n risgiau canolig, ac wyth risg wedi'u nodi'n risgiau isel. Roedd y risgiau'n amrywio o wrthwynebol i bwyllog, ond ystyriwyd yn gyffredinol bod yr awydd am risg yn wrthwynebol.

10.3 Amlygodd Risg 15 a oedd yn risg newydd o ran enw da yn gysylltiedig â rôl CGA fel yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Gan fod y gwaith yn y maes hwn yn newydd iawn, parhaodd swyddogion i fonitro hyn, a'r amgyffrediad o rôl CGA yn hwyluso'r Corff.

10.4 Wrth ymateb i ymholiad aelod ar sgôr Risg 8 o ran digwyddiadau'n ymwneud â TG, nododd y Prif Weithredwr fod uwch dîm rheoli'r Cyngor yn ymwybodol o'r dystiolaeth hysbys o dorri rheolau a oedd wedi digwydd mewn sefydliadau eraill, ac felly parhaodd i fonitro a phrofi rheolaethau'r maes hwn yn y sefydliad. Cytunodd swyddogion i drafod ac ailystyried y sgorau yn adolygiad nesaf yr uwch reolwyr o'r gofrestr risg.

10.5 Gydag amod y dylai uwch dîm rheoli'r Cyngor ailystyried y sgôr a roddwyd i Risg 8, roedd aelodau'n hapus i gymeradwyo'r Gofrestr Risg.

11. Ymatebion drafft CGA i ymgynghoriadau allanol CGA 28/19

11.1 Cyflwynodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) y papur hwn a oedd yn amlinellu dau ymateb drafft i ymgynghoriadau allanol, a rhoddodd drydydd ymgynghoriad i aelodau ei drafod.

11.2 Yn gyntaf, bu aelodau'n trafod yr ymateb drafft yn Atodiad A ar yr ymgynghoriad ar y 'Canllaw Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022' gan Lywodraeth Cymru. Gan gyfeirio at A3, awgrymodd un aelod y dylid ychwanegu cyfeiriad at yr anhawster yn mesur cynnydd gan nad oedd modd ei ddiffinio na'i feincnodi'n glir fel rhan o'r canllawiau.

11.3 Wedyn, bu aelodau'n trafod Atodiad B, sef ymateb drafft y Cyngor i ymgynghoriad Estyn ynghylch 'Blwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020-2021'. Yn dilyn awgrym gan aelod, cytunodd y Cyngor roi mwy o bwyslais ar yr ohebiaeth i ysgolion y byddai ei hangen cyn cynnal yr ymweliadau ymgysylltu arfaethedig.

11.4 Wedyn, cyflwynodd y Prif Weithredwr ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru, ynghylch 'Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018' yn Atodiad C. Nododd y gallai canlyniad yr ymgynghoriad fod â goblygiadau sylweddol i CGA, ac felly roedd y Cyngor yn ceisio cyngor cyfreithiol ar y mater.

11.5 Esboniodd fod yr ymgynghoriad yn cynnig y gellid dynodi cyllid CGA i 'lywodraeth ganolog' i'w reoli. Nododd, fel corff annibynnol a ariennir gan ffioedd unigolion cofrestredig a gyda'i gronfeydd wrth gefn ariannol ei hun, nad oedd hyn yn briodol. Nododd ymhellach fod swyddogion yn pryderu'n fawr am y modd yr oedd y broses ymgynghori wedi cael ei rheoli, gan na chysylltwyd yn uniongyrchol â Chadeirydd y Cyngor na'r uwch dîm rheoli ynglŷn â'r ymgynghoriad. Nododd fod y pryderon hyn hefyd yn dwysáu o fewn Llywodraeth Cymru a'i fod wedi sicrhau estyniad i'r cyfnod ymgynghori er mwyn i CGA fynd i'r afael yn briodol â'r pryderon hyn.

11.6 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi trafod y mater gyda chynrychiolwyr sefydliadau eraill a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer eu dynodi. Nododd fod nifer o sefydliadau eraill wedi adrodd am eu pryderon ynglŷn â'r mater hwn.

11.7 Wrth gadarnhau datganiad gan aelod, esboniodd y Prif Weithredwr fod holl waith cofrestru a rheoleiddio craidd y Cyngor yn cael ei ariannu'n annibynnol gan ffioedd unigolion cofrestredig. Amlinellwyd y gwaith ychwanegol a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru yn glir yn y llythyr blynyddol am y Cynnig Grant fel gwaith ychwanegol a wnaed gyda'r cyllid ychwanegol.

11.8 Roedd aelodau'n hapus i gymeradwyo'r ymatebion drafft yn Atodiadau A a B a chael diweddariad wrth i'r sefyllfa ddatblygu, ynglŷn â'r ymgynghoriad yn Atodiad C.

12. Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysgu **CGA 29/19**

12.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, ac esboniodd, o dan Ddeddf Addysg (Cymru), mai un o brif swyddogaethau CGA oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg. Mewn deddfwriaeth, nododd fod CGA yn gallu gwneud y gwaith hwn ar gais Llywodraeth Cymru, a gyda chyllid grant ganddi.

12.2 Dywedodd fod y llythyr am y Cynnig Grant wedi cael ei dderbyn, a oedd yn cadarnhau dyraniad grant o £480,000 ar gyfer y maes gwaith hwn. Wedyn, amlinellodd sut byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf, fel yr adroddir ym mharagraff tri.

12.3 Parthed diweddariad ym mharagraff naw, dywedwyd ers ysgrifennu'r papur, bod y Gweinidog Addysg wedi cymeradwyo Cynllun Strategol dwy flynedd y Cyngor â chostau ar gyfer y gwaith hwn yn Atodiad A.

12.4 Gan gyfeirio aelodau at Atodiad B, esboniodd Bethan Stacey fod yr ymchwil i'r farchnad a gomisiynwyd ynglŷn â dull strategol o recriwtio, cadw a hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector addysg yng Nghymru bellach wedi'i chwblhau. Dywedodd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio dwy fanyleb; un i gaffael 'diweddaru brand' ac ail fanyleb i gaffael platfform digidol newydd. Y gobaith yw y byddai'r ddau wahoddiad i dendro yn weithredol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019.

12.5 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, esboniodd y byddai'r platfform digidol, yn y tymor hir, yn cynnwys cronfa ddata yn hysbysebu swyddi yn yr holl gategorïau unigolion cofrestredig. Fodd bynnag, gan fod y gwaith yn newydd iawn o hyd, roedd swyddogion yn canolbwyntio ar y manylebau uniongyrchol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysgu.

12.6 Fel yr amlinellir ym mharagraff 15, dywedwyd wrth aelodau y byddent yn cael eu gwahodd i ddarparu cyfraniadau rheolaidd at y maes gwaith hwn a bod sesiynau ymgysylltu wedi eu trefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi 2019, a chyfarfod dilynol y Cyngor ym mis Tachwedd 2019.

12.7 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad cynnydd.

13. Adroddiad SAC, Cofrestru a Sefydlu **CGA 30/19**

13.1 Yn absenoldeb Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer*), cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad cynnydd hwn a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am waith y Cyngor o ran cofrestru a gweinyddu dyfarniad Statws Athro Cymwys (SAC) a Sefydlu.

13.2 Fel yr amlinellir ym mharagraffau dau i saith, dywedodd fod casgliadau ffioedd blynyddol bellach wedi'u cwblhau a bod hyn wedi arwain at ddad-gofrestru 11,172 o ymarferwyr. Roedd y ffigur hwn yn gyson â ffigur blynyddoedd blaenorol, a nododd yn gyffredinol fod mwyafrif y rheiny yr oedd eu henwau wedi cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr yn ymarferwyr a

oedd wedi ymddeol neu nad oeddent yn gweithio mwyach mewn proffesiwn yr oedd yn ofynnol cofrestru ar ei gyfer.

13.3 Gan gyfeirio at baragraff chwech, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau, sef bod nifer yr ymarferwyr yn gweithio heb eu cofrestru neu wedi eu cofrestru mewn categori anghywir wedi gostwng i 700, ers ysgrifennu'r papur. Roedd y Cyngor yn cynnal ei weithdrefn ar gyfer delio â materion cydymffurfio, ac roedd cyflogwyr yn ymwybodol y gallai diffyg cydymffurfio parhaus arwain at eu cyfeirio'n ffurfiol at Lywodraeth Cymru.

13.4 Cyfeiriwyd aelodau at baragraffau 7-10 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ddatblygiadau diweddar gyda chontractwr cronfa ddata CGA. Atgoffwyd y Cyngor bod £300,000 yng nghronfa wrth gefn y gronfa ddata ar gyfer datblygu system newydd o bosibl, a pharhaodd swyddogion i fonitro'r maes hwn yn agos.

13.5 Dywedodd y Prif Weithredwr fod y swyddogion yn parhau i amlygu'r materion deddfwriaethol ynglŷn â'r categori gwaith ieuenctid i swyddogion Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd ym mharagraff 21, ar 24 Mehefin 2019, roedd y Cyngor wedi derbyn ymateb gan swyddogion yn dilyn llythyr y Prif Weithredwr a anfonwyd ym mis Awst 2018. Fodd bynnag, nid oedd yr ymateb yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion a godwyd. Dywedodd y byddai'n parhau i godi'r materion hyn.

13.6 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad cynnydd.

14. Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) CGA 31/19

14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru.

14.2 Fel yr amlinellir ym mharagraff tri, roedd y ddwy raglen newydd a gyflwynwyd gan Bartneriaeth Prifysgol Abertawe a Phartneriaeth Prifysgol De Cymru wedi cael eu hachredu gydag amodau am gyfnod o bum mlynedd. Roedd angen cyflwyno tystiolaeth i ddangos sut roedd yr amodau wedi cael eu bodloni i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019 / Ionawr 2020 a byddai ymweliadau cydymffurfio yn cael eu cynnal wedyn ar ddechrau 2020.

14.3 Gan amlygu paragraffau pump a chwech, dywedwyd, yn dilyn ymarfer tendro cyhoeddus llawn, bod Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Brifysgol Agored i ddatblygu Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ran-amser, a llwybr cyflog i addysgu. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno o flwyddyn academaidd 2019-20, a byddai angen achrediad cyn dechrau ar y ddwy raglen.

14.4 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, nododd Bethan Stacey fod pob un o'r naw rhaglen a achredwyd ag amodau ym mis Mehefin 2018 wedi bodloni'r amodau a osodwyd ond roeddent yn destun ymweliadau monitro o hyd i sicrhau cydymffurfio.

14.5 Dywedwyd wrth aelodau fod Cadeirydd presennol y Bwrdd Achredu, sef yr Athro John Furlong, wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o fis Medi 2019. Dywedodd fod y broses recriwtio ar gyfer penodi rhywun arall yn ei le wedi dechrau, ac y byddai'r Cyngor yn cael gwybod y canlyniad ar ôl gwneud y penderfyniad. Fel yr awgrymwyd gan aelodau, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at yr Athro Furlong ar ran y Cyngor i ddiolch iddo am ei waith amlwg yn y maes hwn.

14.6 Gan gyfeirio at baragraff 24, esboniodd Bethan mai CGA oedd y rheolwr prosiect i ddatblygu tri adroddiad ymchwil ar y testun 'Cymhellion' i'r proffesiwn addysgu. Roedd yr Athro John Gardener, sef aelod annibynnol grŵp llywio'r prosiect, wedi datblygu adroddiad yn dod â'r canfyddiadau o bob un o'r tri phrosiect at ei gilydd, a oedd ynghlwm yn Atodiad A, er gwybodaeth i aelodau.

14.7 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad cynnydd.

15. Adroddiad cynnydd Addasrwydd i Ymarfer CGA 32/19

15.1 Yn absenoldeb Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer*), cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad cynnydd hwn, a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor. Gwahoddwyd aelodau i geisio eglurhad ar unrhyw bwyntiau yn deillio o'r adroddiad.

15.2 Cyfeiriodd aelodau yn benodol at baragraffau 17 ac 18 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am gynnydd y Cyngor o ran cael y pŵer i osod gorchmynion gwahardd dros dro. Mewn cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r Gweinidog Addysg, cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i ymgynghori ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fyddai'n rhoi'r pwerau hyn i CGA.

15.3 Roedd swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddrafftio'r ymgynghoriad i amlinellu'r cynigion ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Byddai hyn wedyn yn destun dadl mewn cyfarfod llawn yn y Cynulliad, ac felly, amcangyfrifwyd y byddai'r broses yn cymryd oddeutu 12 mis.

15.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach, ac roeddent yn hapus i dderbyn yr adroddiad cynnydd.

16. Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru CGA 33/19

16.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynglŷn â rôl newydd y Cyngor fel yr Ysgrifenyddiaeth annibynnol ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Atgoffwyd aelodau fod y Cyngor wedi ymgymryd â'r rôl ar ddiwedd mis Chwefror 2019 a bod y gwaith yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

16.2 Ar ôl gweithio yn unol â graddfa amser dynn iawn ar gyfer ei rownd adolygu derfynol, roedd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru wedi cyflwyno'i adroddiad i'r Gweinidog Addysg ar 12 Mehefin 2019. Disgwyliwyd y byddai'r adroddiad, ynghyd ag ymateb y Gweinidog i bob argymhelliad, yn destun ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

16.3 Byddai cylch gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn ymestyn i ystyried amodau yn ogystal â chyflogau yn yr ail rownd adolygu. Roedd swyddogion eisoes wedi dechrau gwaith paratoadol ar gyfer yr adolygiad nesaf hwn, ac roedd disgwyl i'r aelodau gyfarfod eto ar ddechrau mis Medi 2019.

16.4 Diolchodd y Prif Weithredwr i Lisa Winstone a'i thîm am eu gwaith parhaus yn y maes newydd hwn.

17. Adroddiad cynnydd ar weithredu Strategaeth Ymchwil a Phrosiectau Ymchwil CGA
CGA 34/19

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad hwn a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am weithgarwch ymchwil CGA, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

17.2 Tynnodd sylw aelodau at baragraff dau, a oedd yn nodi bod y Cyngor wedi datblygu dau ganllaw ymchwil ar gyfer unigolion cofrestredig. Nododd ymhellach yr adnoddau eraill sydd ar gael ar gyfer ymarferwyr, a oedd i gyd wedi eu cyhoeddi ar wefan CGA.

17.3 Amlinellodd paragraffau 16-19 ymglymiad CGA gyda Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol Llywodraeth Cymru. Byddai cyfarfod pellach o'r grŵp hwn yn cael ei gynnal ar 15 Gorffennaf 2019, a gwahoddwyd aelodau i anfon unrhyw sylwadau neu awgrymiadau a allai fod ganddynt ar gyfer gwaith yn y maes hwn.

17.4 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, esboniodd Bethan Stacey fod swyddogion yn adolygu'r weithdrefn ynglŷn â'r cynllun peilot bwrsari ymchwil i sicrhau cronfa o gymwysiadau o ansawdd uwch. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi ar ôl cwblhau'r adolygiad.

17.5 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad cynnydd.

18. Adolygiad y Cyngor **CGA 35/19**

18.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn rhoi trosolwg o ymatebion aelodau yn dilyn yr adolygiad blynyddol o broses adolygu'r Cyngor a'r aelodau. Cafodd sylwadau o adolygiad y Cyngor eu cynnwys yn y papur, ond nid sylwadau a wnaeth aelodau yn ystod eu cyfarfodydd unigol â'r Cadeirydd, yn unol â'r weithdrefn gytûn.

18.2 Dywedodd fod y sgorau cyffredinol yn galonogol a bod aelodau'n hapus ar y cyfan. Roedd aelodau wedi mynegi eu boddhad â'r cynllun hyfforddi parhaus a oedd yn parhau i ddarparu ystod eang o sesiynau briffio i'r Cyngor, sy'n berthnasol i bob un o'i gategorïau cofrestru.

18.3 Roedd aelodau'n hapus i dderbyn yr adolygiad.

19-23. Eitemau gwybodaeth

Derbyniodd aelodau bapurau "er gwybodaeth", sef adroddiadau ar:

- Adolygiad chwarterol (1 Ionawr – 31 Mawrth 2019) **(CGA 36/19)**
- Adolygiad o flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu **(CGA 37/19)**

- Ariannu cyfnod sefydlu, adroddiad cynnydd o ran datblygiad proffesiynol cynnar, meistri mewn ymarfer addysgol **(CGA 38/19)**
- Pasbort Dysgu Proffesiynol **(CGA 39/19)**
- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol **(CGA 40/19)**

Wedyn, symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.